Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

**CCCC 2014 (Papur 7)**
**Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn**

**Dyddiad: 18 Mawrth 2010**
**Amser: 16.00**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B**
**Enw'r Awdur a rhif cyswllt: Claire Clancy, estyniad 8233**

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli i Gomisiwn y Cynulliad – Mawrth 2010

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.*

**1.0 Amcanion strategol Comisiwn y Cynulliad**

**1.1 Amcan strategol – Hyrwyddo ac ymestyn yr ymgysylltiad â datganoli**

**(a) Sylw yn y wasg**

Roedd y sylw a roddwyd yn y wasg i'r Cynulliad ym mis Chwefror yn canolbwyntio'n bennaf ar y bleidlais ar Refferendwm ar bwerau deddfwriaethol y Cynulliad, yn ystod y cyfnod yn arwain at y bleidlais ar 9 Chwefror ac ar ddiwrnod y bleidlais ei hun. Mewn cyfweliadau ar y 'Politics Show' ac ar raglenni radio, cyfeiriodd y Llywydd at y rôl gadarnhaol y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei chwarae yn y broses o ddarparu gwybodaeth am y Refferendwm i'r cyhoedd yng Nghymru.

Cafwyd sylw helaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Iechyd Meddwl (y Gorchymyn cyntaf gan aelod o'r meinciau cefn i gael cydsyniad Brenhinol). Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar lifogydd, canolbwyntiodd rhaglen gyfan o 'Wales This Week' ar y ddadl ynghylch llifogydd.

Cafwyd sylw cadarnhaol ynghylch agoriad y Pierhead ar 1 Mawrth yn ogystal â sylw ynghylch Sesiynau'r Pierhead.

1.2 Amcan strategol – undod, arweinyddiaeth ac ymateb eofn i newid cyfansoddiadol

(a) Y wybodaeth ddiweddaraf am fusnes y Cynulliad

Y rhaglen ddeddfwriaethol

Ers adroddiad diwethaf y Comisiwn, mae'r broses graffu ar gyfer tri Mesur arfaethedig arall wedi dechrau ac mae pum Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft wedi cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad. Ers dechrau'r trydydd Cynulliad, mae 15 o Orchymynion Arfaethedig, 14 o Orchymynion Drafft a 16 o Fesurau Arfaethedig wedi cael eu cyflwyno.

Mae dau Fesur arfaethedig arall i'w cyflwyno o ddatganiad deddfwriaethol diwethaf y Llywodraeth ac mae disgwyl i Jeff Cuthberth ac Ann Jones gyflwyno Mesurau Arfaethedig cyn toriad yr haf. Er nad oes gennym wybodaeth bellach am y ddeddfwriaeth y mae'r Llywodraeth yn debygol o'i chyflwyno ym mlwyddyn olaf y Cynulliad, nid yw'n debygol y bydd unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir i graffu arni yn gynnar yn nhymor yr hydref yn cael ei phasio cyn diwedd y Trydydd Cynulliad.

Gan ddibynnu ar faint o ddeddfwriaeth a gyflwynir gan y Llywodraeth yn ystod gweddill y Cynulliad hwn, mae'n debygol y bydd pwysau ar amser y pwyllgorau deddfwriaeth ac, yn ddiweddarach yn y broses, ar amser y Cyfarfod Llawn. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi ystyried y pwysau hwn wrth bennudyddiadau'r toriadau ac mae wedi cytuno i adolygu'r rhain yn rheolaidd i sicrhau bod amser ar gael i'r holl ddeddfwriaeth gwblhau ei llwybr drwy'r Cynulliad cyn diddymu'r Cynulliad presennol.

Pwyllgorau'r Rhanbarthau

Fis diwethaf, ar 16 Chwefror, cynhaliodd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig gyfarfod ar gyfer ei ymchwiliad i Glastir yn Nolgellau. Roedd 16 o bobl yn yr oriel gyhoeddus ar gyfer y

cyfarfod, a darparwyd mwy o wybodaeth cyswllt ar gyfer y pwyllgorau a'r tîm allgymorth ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn bwriadu cynnal cyfarfod ar ei ymchwiliad i 'Barciau Cenedlaethol' ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar 11 Mawrth. Mae'r Tîm Allgymorth yn gweithio ar hyn o bryd gyda chlercod y Pwyllgorau i sicrhau bod y cyhoeddusrwydd yn cael ei dargedu ar gyfer y cynulleidfaoedd cywir a bod pobl yn mynychu'r cyfarfod.

Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn gobeithio casglu tystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad i 'Fannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu' a disgwylir iddo gynnal gweithdai gyda phobl ifanc.

(b) Y Rhaglen Newid Busnes

Yn dilyn yr argymhellion yn i-Change, sefydlwyd y Bwrdd Rhaglen Newid i sicrhau bod ein prosiectau newid busnes yn cael eu blaenoriaethu a'u cydlynu. Mae'r Bwrdd, y mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn aelodau ohono, yn cael ei gynorthwyo gan Craig Stephenson, fel y Rheolwr Newid, a swyddfa raglen fechan. Rhaid i'r prosiectau a gynorthwyir o dan y rhaglen wella ymgysylltiad y Cynulliad a'i gwasanaethau i'r cyhoedd, gwella'r wybodaeth sydd ar gael i Aelodau fel y gallant wasanaethu eu hetholwyr yn well a gwella'r prosesau ar gyfer staff fel y gellir gwneud y Cynulliad yn fwy hygyrch ac yn haws i'w ddeall. Mae tua 30 o brosiectau naill ai wedi cael eu dechrau neu yn cael eu cynllunio.

1.3 Amcan strategol – parch, uniondeb a llywodraethu da

(a) Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad – 11 Chwefror

Yn ogystal ag ystyried nifer o eitemau arferol, trafododd Pwyllgor Archwilio'r Comisiwn ganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar y gwaith a wnaed i newid cyfrfion blynyddol y Comisiwn fel eu bod yn cydymffurfio â'r safonau adrodd ariannol rhyngwladol newydd, yr amlinelliad o'r strategaeth archwilio gan y pennaeth archwilio mewnol

newydd, adroddiad archwilio mewnol sydd â gwerth ychwanegol sy'n argymell creu Strategaeth Rheoli Gwybodaeth, a fframwaith rheoli cyllid newydd.

(b) Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau

Yn dilyn cymeradwyo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig, llofnododd y Llywydd, ar ran y Comisiwn, a William Graham, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, y Memorandwm ar 24 Chwefror 2010.

Ymddiswyddodd Carwyn Jones fel ymddiriedolwr ar 20 Ionawr ac ymddiswyddodd Mohammad Asghar fel ymddiriedolwr ar 27 Ionawr. Bydd y grŵp Llafur yn enwebu John Griffiths i gymryd lle Carwyn Jones a bydd Gareth Jones yn cael ei enwebu gan grŵp Plaid Cymru i gymryd lle Mohammad Asghar. Bydd yn rhaid i'r Comisiwn gymeradwyo'r enwebiadau a chyflwyno cynnig i ethol yr ymddiriedolwyr.

(c) Arbedion Effeithlonrwydd y Swyddfa Archwilio

Ar ddiwedd mis Ionawr, cyfarfu'r Bwrdd Rheoli â'n cydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru i drafod sut y gallem gydweithio i ddatblygu system adrodd cadarn i alluogi'r Comisiwn i sicrhau arbedion effeithlonrwydd dilys dros y blynyddoedd i ddod. Trafodwyd pwysigrwydd canolbwyntio ar y canlyniadau a geisir o'r arbedion effeithlonrwydd, sefydlu llinell sylfaen ar gyfer cymharu, y cysylltiadau â'r gwaith sy'n bodoli (fel meincnodi a sicrhau buddianau) a dosbarthiad mesurau effeithlonrwydd.

Rydym yn awr yn asesu sut y gallwn ddatblygu'r gwaith effeithlonrwydd presenol i wireddu'r hyn a nodir uchod mewn ffordd cydlynol a dilysadwy sy'n cefnogi ein hamcanion strategol. Rydym wedi derbyn cynnig y Swyddfa Archwilio i weithio gyda ni ar hyn wrth iddi gynnal ei hadolygiad ei hun ar fynd i'r afael â'r agenda effeithlonrwydd a gwella mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.


(d) Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

Roedd yn Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod ar 8 Mawrth, ac i ddathlu hyn, cynhaliodd y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad

ddigwyddiad amser cinio yn Ystafell Giniawa'r Aelodau ar 15 Mawrth.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyno amlinelliad o'r polisïau a'r adnoddau y mae'r Cynulliad yn eu darparu sy'n cynnig cymorth a buddiannau i'w gyflogeion, fel gweithio hyblyg, gweithio gartref, oriau rhan amser, ac ati. Y siaradwr gwadd oedd Voirrey Manson, Uwch Gynghorydd Cydraddoldeb Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG.

(e) Crynodeb o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth 2009




Cafodd y Cynulliad 54 o geisiadau am wybodaeth rhwng 1 Ionawr 2009 a 31 Rhagfyr 2009.

Mae'r graff yn dangos nifer y ceisiadau yn ôl pwnc. Treuliau Aelodau'r Cynulliad oedd pwnc mwyaf poblogaidd y ceisiadau gyda 20 y cant o'r holl geisiadau yn ymwneud â hynny. Yr ail bwnc mwyaf poblogaidd oedd materion yn ymwneud â chostau'r Cynulliad Cenedlaethol, gyda 13 y cant o'r ceisiadau yn ymwneud â'r pwnc hwnnw.

Cadwyd y wybodaeth yn ôl ar chwe achlysur, pan weithredwyd eithriadau Adran 36 (data personol) neu Adran

**40 (gweithredu materion cyhoeddus yn effeithiol) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.**

**Gwnaed dwy gŵyn ynghylch ein ymateb i geisiadau am wybodaeth i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn y ddwy achos, cefnogodd y Comisiynydd ein penderfyniad i gadw'r wybodaeth yn ôl.**

1.4 Amcan strategol – Gweithio'n gynaliadwy

(a) Car at ddefnydd pawb

Mae llogi car at ddefnydd pawb yn cael ei dreialu fel rhan o gytundeb llogi car newydd gyda'r cwmni llogi ceir Days Rentals, sydd wedi'i leoli yng Nghymru. Roedd yr achos busnes am gar at ddefnydd pawb yn seiliedig ar ddefnydd hanesyddol o geir wedi'u llogi. Ein hamcanion yw:

1. lleihau ôl-troed carbon y defnydd o geir at ddibenion busnes – Ford Fiesta Econetic yw'r car, sy'n effeithlon o ran tanwydd, sydd ag injan disel 1600cc ac sydd ag allyriadau o ddim ond 98 g/km $CO_2$. Cyfanswm y defnydd o danwydd ar gylch cyfunol yw 76.3mpg ac mae'r car wedi'i eithrio o'r tollau cartref ar gyfer ceir;

2. lleihau costau – llogir y car at ddefnydd pawb am tua £60 yr wythnos (o'i gymharu â £26 y diwrnod am logi car yn ddyddiol).

Bydd y car yn cael ei logi o dan gytundeb tymor hir tan 16 Gorffennaf. Byddwn wedyn yn asesu a gafwyd y buddiannau disgwyliedig cyn penderfynu llofnodi cytundeb llogi tymor hir newydd.

1.5 Amcan strategol – Y gwasanaeth gorau, wedi'i ddarparu yn y ffordd mwyaf effeithiol

(a) Negodiadau tâl a gwobrwyon

Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn i ddatblygu strategaeth wobrwyo gyntaf y Cynulliad, sy'n cynnwys cynnig i'r trefniadau tâl ddilyn y cytundeb tâl presenol dros 3 blynedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2010. Mewn ymateb i wahoddiad gan y Prif Weithredwr a'r Clerc, mae'r Undebau Llafur wedi tynnu sylw at y blaenoriaethau y maent yn credu y dylid mynd i'r afael â hwy:

- Dylai'r tâl gynnal ei werth presennol mewn termau real;
- Dylid cynyddu'r holl daliadau a'r lwfansau yn unol â'r setliad tâl cyffredinol y cytunir arno;

- **Dylai'r cytundeb gynnwys unrhyw arbedion effeithlonrwydd a chynilion posibl yng nghyllideb y Cynulliad.**

**Bwriedir i'r negodiadau gyda'r Undebau Llafur ddechrau ym mis Mawrth.**

**(b) Gweithredu diwydiannol**

**Cafwyd gweithredu diwydiannol gan aelodau o Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) ar 8 a 9 Mawrth oherwydd anghydfod ynghylch Cynllun Iawndal y Gwasnaeth Sifil. Aeth 36 y cant o staff y Cynulliad ar streic ar 8 Mawrth, a 39 y cant ar 9 Mawrth.**

**Mae'r Undeb wedi cyhoeddi y bydd gweithredu pellach yn debygol o ddigwydd yn ystod mis Mawrth, ond ni phenderfynwyd eto beth fydd natur y gweithredu na phryd y bydd yn digwydd. Mae'n ofynnol bod yr Undeb yn rhoi saith diwrnod o rybydd cyn unrhyw weithredu arfaethedig.**

**2.0 Gweithgareddau a digwyddiadau Allweddol**

**2.1 Agor y Pierhead**

**Mae Prosiect y Pierhead wedi'i gwblhau'n llwyddiannus ac agorwyd yr adeilad i'r cyhoedd ar 1 Mawrth. Agorwyd yr adeilad yn swyddogol gan y Llywydd yn dilyn anerchiad i groesawu'r gwesteion gan Lorraine Barrett AC. Roedd y 120 o westeion a wahoddwyd yn cynnwys staff a oedd yn arfer gweithio yn y Pierhead, Cymdeithas y Llynges Fasnachol, y contractwyr a oedd yn rhan o Brosiect y Pierhead a phlant o Ysgol Mount Stuart a berfformiodd ganeuon i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Yn dilyn yr agoriad swyddogol, cynhaliodd Canolfan Llywodraethiant Cymru ei haraith Dydd Gŵyl Dewi flynyddol yn y Pierhead. Traddododd yr Ustus John Thomas yr araith i dros 100 o wahoddedigion. Agorwyd yr adeilad i'r cyhoedd o 13.00, ac ymwelodd 250 o bobl â'r adeilad cyn iddo gau am 16.30. Cafwyd dros 468 o ymwelwyr i'r Pierhead ar y diwrnod agoriadol.**

**2.2 Sesiynau'r Pierhead**

Roedd Sesiynau'r Pierhead yn ŵyl dros dri diwrnod a gynhaliwyd gan y Cynulliad yn adeilad y Pierhead wedi iddo agor rhwng 4 a 6 Mawrth. Roedd rhaglen yr ŵyl yn adlewyrchu gwerthoedd craidd y Pierhead: i argyhoeddi, cynrychioli ac ysbrydoli.

Diben yr ŵyl oedd cyflwyno'r Pierhead fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau a chynadleddau ac i'w sefydlu fel man cyhoeddus ar gyfer trafod a rhoi rhyddid i lefaru. Llwyddwyd i wneud hynny drwy gynnal cyfres o sesiynau a oedd yn cynnwys siaradwyr nodedig a gwesteion arbennig yn trafod nifer o faterion y dydd (ee yr amgylchedd, y wasg, democratiaeth) sy'n effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru a'r DU. Roedd pynciau'r sesiynau'n cynnwys: Dyfodol Newyddiaduraeth; Llywyddion Llafar: Hyrwyddo Democratiaeth, gyda'r Llywydd a'r Llywydd William Hay o Gynulliad Gogledd Iwerddon; a Llyfr Coginio 2050, a oedd yn ystyried beth y byddwn yn ei fwyta yn 2050.

2.3 Penodiadau cyhoeddus

Bu'n rhaid i'r Cynulliad ymdrin ar frys ag ymddiswyddiad annisgwyl Archwilydd Cyffredinol Cymru. Oherwydd nad oedd darpariaethau yn y fframwaith deddfwriaethol, nid oedd dewis arall ar gyfer penodi rhywun dros dro i'r swydd ar frys. Yn y diwedd, ymdrinnwyd â'r sefyllfa, a allai fod wedi cael effaith ddifrifol, mewn ffordd esmwyth ac effeithiol gan y Cynulliad, ac ar ei ran, oherwydd arweinyddiaeth pendant a phragmataidd Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'r digwyddiadau hyn wedi amlygu'r angen i'r Cynulliad wneud defnydd o'r cymhwysedd deddfwriaethol newydd a roddir o dan y Mesur Llywodraethu a Diwygio Cyfansoddiadol i roi strwythur llywodraethu cadarnach ar waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru.

3.0 Adroddiad ariannol

3.1 2009-10 – y flwyddyn hyd yn hyn – y cyfnod a ddaeth i ben ar 28 Chwefror

Ar ddiwedd y flwyddyn, disgwyilr y bydd tanwariant o £0.9 miliwn neu 1.8 y cant o'r gyllideb o £49.7 miliwn ar

gyfer 2009-10. Mae hyn yn cyd-fynd ag adroddiad diwethaf y Comisiwn ym mis Ionawr lle yr amlygwyd tanwariant o £1.2 miliwn (2.4 y cant). Y sefyllfa ddelfrydol ar ddiwedd y flwyddyn fyddai cael tanwariant o £250,000 neu lai, gydag uchafswm o £1 miliwn (2 y cant o'r gyllideb lawn).

Mae'r gwariant ar gyfer gweddill y flwyddyn yn cael ei reoli o fewn y Cynulliad. Mae'r risgiau yn cynnwys rhagolygon y gwasanaethau i wario 18 y cant o'r gyllideb flynyddol yn wythnosau olaf y flwyddyn. Yn ogystal, mae nifer o brosiectau TGCh lle rydym yn dibynnu ar ein contractiwr TGCh, Siemens, i gwblhau pecynnau gwaith y cytunwyd arnynt cyn 31 Mawrth 2010. Y pecynnau gwaith TGCh hyn, yn ogystal â'r risg y gallai Cronfa Bensiynau'r Aelodau fod angen cyllideb nad yw'n arian parod o £100,000 yn rhagor neu £100,000 yn llai yw'r prif risgiau o gael tanwariant sydd o fewn 2 y cant o'r gyllideb. Mae Perfformiad y Gyllideb ar gyfer y cyfnod yn dod i ben ar 28 Chwefror i'w gael yn Atodiad A er gwybodaeth.

Roedd gwariant net y Comisiwn o £39.9 miliwn ar ddiwedd mis Chwefror 6 y cant yn llai nag oedd y rhagolwg diweddaraf wedi'i amcangyfrif. Mae hyn yn bennaf oherwydd llithriad ar y prosiect UNO. Cyfeiriodd yr adroddiad blaenorol at yr angen posibl am Gyllideb Atodol yn 2010-11 i dalu am gostau UNO. Mae hyn yn dod yn fwy tebygol wrth i ni reoli'r llithriad o ran UNO i mewn i 2010-11. Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect UNO i'w gael ym Mhapur 3.

3.2 Cyllideb Atodol 2009-10

Mae'r newidadau a wnaed gan y Comisiwn i'r Gyllideb Atodol ddiweddaraf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru'n rheoleiddio'r gwariant yn y gyllideb rhwng y diffiniadau cyfrifyddu o Gyfalaf a Refeniw. Nid yw'r gyllideb a gytunwyd o £49,701 miliwn wedi newid.

3.3 Diwedd y flwyddyn 2009-10

Mae'r cynllunio ar gyfer diwedd y flwyddyn wedi hen ddechrau. Hysbyswyd Aelodau'r Cynulliad a'r staff ynghylch y cerrig milltir a'r terfynau amser allweddol ar gyfer

**dychweliadau diwedd y flwyddyn. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau ei harchwiliad interim yn llwyddiannus a bydd yn dychwelyd ar gyfer yr archwiliad terfynol ym mis Mehefin.**

**4.0 Gwybodaeth arall**

**4.1 Mae rhestr o'r wybodaeth a ddatgelwyd ers yr adroddiad diwethaf o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i'w chael yn Atodiad B. Gellir datgelu'r wybodaeth yn llawn i Gomisiynwyr ar gais.**

## Atodiad A Perfformiad y Gyllideb ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2009 a mis Chwefror 2010

| Gwasanaeth | Rhag-olwg hyd yn hyn (£'000) | Gwar-iant gwirioneddol hyd yn hyn (£'000) | Amryw-iaeth ar gyfer y cyfnod (£'000) | Amryw-iaeth % | Alldro a ragwelir ar gyfer 2009-10 (£'000) | Cyllideb Flynyddol Ddiwygiedig 2009-10 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol | 1,613 | 1,610 | 3 | 0 | 1,793 | 1,855 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 539 | 539 | 0 | 0 | 610 | 614 |
| Y Bwrdd Newid - Adolygiad o Wasanaethau Dwyieithog | - | - | - | - | 12 | 12 |
| | 2,152 | 2,149 | 3 | 0 | 2,415 | 2,481 |
| Y GYFARWYDDIAETH WEITHREDIADAU | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,321 | 1,310 | 11 | 1 | 1,430 | 1,476 |
| Yr Adran Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | 6,460 | 6,220 | 240 | 4 | 7,427 | 7,534 |
| Gwasanaethau Cyllidol | 728 | 731 | -3 | -1 | 801 | 749 |
| TGCh | 3,631 | 3,385 | 246 | 7 | 4,639 | 4,808 |
| Prosiect UNO | 1,320 | 475 | 845 | 64 | 2,607 | 2,650 |
| Prosiect Gwaith Achos yr Aelodau | 179 | 132 | 47 | 26 | 350 | 200 |
| Cysylltiadau Allanol | 2,006 | 1,977 | 29 | 1 | 2,357 | 2,424 |
| Y Pierhead | 1,183 | 978 | 205 | 17 | 1,183 | 1,120 |
| Diogelwch | 2,050 | 2,014 | 36 | 2 | 2,314 | 2,291 |
| Caffael a Chynaliadwyedd | 126 | 124 | 2 | 2 | 140 | 132 |
| | 19,004 | 17,346 | 1,658 | 9 | 23,248 | 23,384 |
| CYFARWYDDIAETH BUSNES Y CYNULLIAD | | | | | | |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | 1,665 | 1,656 | 9 | 1 | 1,834 | 1,921 |
| Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth | 964 | 960 | 4 | 0 | 1,061 | 1,071 |
| Prosiect Meddalwedd Deddfwriaeth | - | - | - | - | 15 | 50 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi | 1,611 | 1,611 | 0 | 0 | 1,767 | 1,853 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | 951 | 950 | 1 | 0 | 1,053 | 1,145 |
| Prosiect System Rheoli Busnes y Cynulliad | - | - | - | - | 70 | 75 |
| Yr Uned Gydgysylltu | 82 | 82 | 0 | 0 | 90 | 95 |
| | 5,273 | 5,259 | 14 | 0 | 5,890 | 6,210 |
| Cyfanswm Gwasanaethau'r Comisiwn | 26,429 | 24,754 | 1,675 | 6 | 31,553 | 32,075 |
| Tâl a Lwfansau Aelodau | 11,267 | 11,199 | 68 | 1 | 12,374 | 12,759 |
| Galwadau posibl ar y gronfa wrth gefn | | | | | 274 | 167 |
| Cyfanswm – eitemau arian parod | 37,696 | 35,953 | 1,743 | 5 | 44,201 | 45,001 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dibrisiant a llog tybiannol** | 3,850 | 3,993 | -143 | -4 | 4,356 | 4,200 |
| **Darpariaeth Pensiwn yr Aelodau** | | | | | 250 | 500 |
| **Cyfanswm** | 41,546 | 39,946 | 1,600 | 4 | 48,807 | 49,701 |
| **Tanwariant a ragwelir** | | | | | 894 | |
| **Cyfanswm y gyllideb sydd ar gael** | | | | | 49,701 | |

## GWYBODAETH A RYDDHAWYD YN DILYN CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH

## IONAWR-CHWEFROR 2010

- **Manylion costau staff y Cynulliad yn ôl adeilad, yn ogystal â chostau ailwampio a gwaith adeiladu newydd ers 1999**
- **Gwybodaeth yn ymwneud â dyddiadu cwrdd i ffwrdd ar gyfer staff**
- **Gweithdrefnau o fewn y Tîm Cymorth i Aelodau ar gyfer prosesu ceisiadau am dreuliau**
- **Gwybodaeth yn ymwneud â'r digwyddiadau a gynhelir yn y Senedd**

## GWYBODAETH NA CHAFODD EI RHYDDHAU YN DILYN CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH

## IONAWR-CHWEFROR 2010

- **Ni chafodd unrhyw wybodaeth ei dal yn ôl.**